# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

## Cofnodion (EL(3)-11-07)

**Dyddiad: 21 Tachwedd 2007**
**Amser: 9.00am - 11.35am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd**

### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

Gareth Jones, Aberconwy
Alun Cairns, Gorllewin De Cymru
Christine Chapman, Cwm Cynon
Jeff Cuthbert, Caerffili
Huw Lewis, Merthyr Tudful a Rhymni
David Melding, Canol De Cymru
Sandy Mewies, Delyn
Janet Ryder, Gogledd Cymru
Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Dr Kathryn Jenkins, Clerc
Daniel Collier, Dirprwy Glerc

### Arbenigwyr y Pwyllgor

David Blair, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Alys Thomas, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Eraill yn Bresennol

Jane Hutt, Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Steve Marshall, Cyfarwyddwr, Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Sylvia Lindoe, Pennaeth Is-adran Rheoli Ysgolion, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Jon Rae, Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Catherine Roberts, Is-adran Rheoli Ysgolion, Llywodraeth Cynulliad Cymru

### 1: Cyflwyno, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cyflwynodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

### 2: Craffu ar y cynnydd a wnaed wrth roi ar waith argymhellion adroddiad y Pwyllgor ar Gyllido Ysgolion ar Drefniadau Cyllido Ysgolion yng Nghymru

**Papur: EL(3) 11-07 - Papur 1**

2.1 Croesawodd y Pwyllgor Jane Hutt, Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; Steve Marshall, Cyfarwyddwr, Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru; Sylvia Lindoe, Pennaeth yr Is-adran Rheoli Ysgolion, Llywodraeth Cynulliad Cymru; Jon Rae, Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cynulliad Cymru; Catherine Roberts, Is-adran Rheoli Ysgolion, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

2.2 Craffodd y Pwyllgor ar dystiolaeth y tystion.

2.3 Byddai'r Clerc yn trefnu sesiwn friffio i'r Aelodau ar oblygiadau adolygiad Bramley.

**Pwyntiau gweithredu:**

Cytunodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y byddai'n:

Darparu manylion am ddulliau asesu costau ar gyfer cychwyn y cyfnod sylfaen.

Darparu manylion ynghylch a gafwyd costau refeniw oedd yn fwy na dyraniad y grantiau.

Lleisio pryderon i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch cyhoeddi Cynlluniau Rheoli Asedau gan yr awdurdodau lleol.

Ystyried ymhellach gymariaethau ystyrlon rhwng y gwario a wneir ar addysg yng Nghymru a'r hyn sy'n digwydd yng ngwledydd a

rhanbarthau eraill y DU.

### 3: Ymateb i ymgynghoriad yr Adran Drafnidiaeth ar Ddefnyddio Gwregysau Diogelwch a Seddi Diogel i Blant gan Blant sy'n Teithio ar Fysiau a Choetsys

**Papurau: EL(3) 11-07 - Papur 2, Atodiad 1**

3.1 Trafododd y Pwyllgor ei ymateb i ymgynghoriad yr Adran Drafnidiaeth ar ddefnyddio gwregysau diogelwch a seddi diogel i blant gan blant sy'n teithio ar fysiau a choetsys.

3.2 Gan ystyried y sylwadau a fynegwyd gan y Pwyllgor, byddai ymateb yn cael ei anfon yn syth i'r Adran Drafnidiaeth.

### 4: Y Cylch Gorchwyl ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor i gyfraniad economaidd addysg uwch
### Papur: EL(3) 11-07 - Papur 3, Atodiad 1

4.1 Rhoddodd y Pwyllgor sylwadau ar gylch gorchwyl drafft yr ymchwiliad i gyfraniad economaidd addysg uwch. Byddai drafft diwygiedig o'r cylch gorchwyl yn cael ei gylchredeg i Aelodau mor fuan â phosibl.

4.2 Byddai'r Pwyllgor yn cymryd tystiolaeth gan gynrychiolwyr Addysg Uwch Cymru, Y Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, CBI Cymru a Ffederasiwn Busnesau Bach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**Papur i'w nodi:**

### Cofnodion y cyfarfod diwethaf
### Papur: EL(3) 10-07 - Cofnodion

Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 14 Tachwedd.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Tachwedd 2007**